

Y croen sosej a'r dŵr hallt

(amynedd / gweld cyfle / parchu bywyd)

Rhedodd y nyrs i chwilio am y meddyg. “Mae Jan Bruning yn gwaethygu,” meddai. “Mae ei liw wedi troi'n felyn ac yn ôl pob golwg dydi o ddim yn gweld erbyn hyn.” Gwyddai Kolff yn union beth oedd wedi digwydd. Er mai dwy ar hugain oed oedd Jan roedd wedi dioddef ers rhai misoedd o afiechyd yr arenau. Pan ddaeth mam Jan i'w weld roedd mewn cyflwr drwg iawn. Roedd yn anymwybodol. Ymhen ychydig oriau ar ôl iddi adael bu farw Jan. Tybed, gofynnodd Willem iddo'i hun, oes modd gwneud rhywbeth i osgoi y math yma o drychineb?

Gwyddai'n union beth oedd gwaith yr arenau yn y corff. Roedd wedi clywed ei dad a'i daid, oedd yn feddygon, yn esbonio iddo droeon. Dim ond newydd gwblhau ei addysg yn y coleg meddygol oedd Willem. Bu'n pendroni am ddyddiau wedi marwolaeth Jan. “Petawn i'n gallu darganfod ffordd o lanhau gwaed y bobl sy'n dioddef o ddiffyg ar yr arenau yna buaswn yn gallu achub bywydau pobl fel Jan.”

Torrodd yr Ail Ryfel Byd ar draws ei ymchwil. Bellach roedd yn rhaid i bob meddyg roi ei holl egni i drin clwyfau'r milwyr. Gwyddai hefyd fod yn rhaid cael digonedd o waed ar gael i filwyr oedd wedi eu hanafu. Ef oedd y cyntaf i gadw cyflenwad o waed ar gyfer y milwyr. Ond bob cyfle a gâi byddai'n dal i weithio ar y syniad o gael aren artiffisial ar gyfer y cleifion. Gweithiai yn ddiwyd yn y dirgel. Doedd Willem ddim yn fodlon i'r Almaenwyr ddwyn ei syniadau.

Penderfynodd ei fod am rannu rhai o'i syniadau gyda meddygon eraill yn yr ysbyty. Un bore, dros baned o de, gofynnodd i un neu ddau o feddygon ifanc ddod i'w labordy ar ddiwedd y dydd.

“Eisteddwch,” meddai wrth y ddau feddyg, “mae gen i rywbeth diddorol iawn i'w ddangos i chi.” Dechreuodd trwy ddangos croen sosej, dŵr wedi'i halltu a darnau o ddefnyddiau eraill i'r meddygon. Dyna lle roedd un yn edrych ar y llall. “Beth nesaf!” meddai un ohonynt. “Wel, mi ddeuda i wrthach chi,” meddai Willem, “Hwn ydi'r peiriant arenau cyntaf yn y byd.” Llenwodd y darn 45cm o groen sosej â gwaed ac ychwanegodd 100mg o wrea. Caedd y croen ar y ddau ben ac ymhen hanner awr roedd

yr wrea wedi mynd o'r gwaed i'r dŵr hallt.

Roedd Willem wedi llwyddo! Cafodd gymeradwyaeth gan ei gyd-feddygon. "Cofiwch chi, peidiwch â dweud wrth bawb yn yr ysbyty hyd nes y bydda i wedi gwneud mwy o arbrofion efo'r croen sosej," ychwanegodd.

Ac ymlaen yr aeth i wella ei arbrofion ac yna, ym 1945, fe achubwyd bywyd merch ifanc oedd yn dioddef o glefyd yr arenau.

O'r diwedd, ar ôl bron i saith mlynedd o waith ymchwil, roedd gwaith Willem Kolff wedi dwyn ffrwyth. Erbyn heddiw mae meddygon yn gallu trawsblannu arenau newydd ond mae'r peiriant arenau yn dal i gael ei ddefnyddio mewn ysbytai a chartrefi heddiw. Hawdd iawn fyddai i'r meddyg bwysu ar ei rwyfau ar ôl ei ddarganfyddiad, derbyn y clod a phenderfynu ei fod wedi gwneud digon.

Ond nid un felly oedd Willem. Bu'n ymchwilio i'r syniad o gael peiriant i helpu'r galon a'r ysgyfaint. Pan fo claf yn cael triniaeth ar ei galon mae peiriant fel hyn yn help mawr pan nad ydi'r galon a'r ysgyfaint yn gweithio'n iawn. Bryd hynny bydd y peiriant yn cymryd lle'r galon a'r ysgyfaint a thrwy hynny mae'r gwaed yn dal i fynd o gwmpas y corff a'r ocsigen yn mynd i mewn i'r gwaed.

Ef hefyd oedd y cyntaf i drawsblannu calon artiffisial mewn anifail ym 1957 ac, ym 1982, rhoddwyd y clod iddo am y galon artiffisial gyntaf mewn dyn. Bu wrthi weddill ei fywyd yn ymchwilio i glustiau, breichiau a dwylo artiffisial. Mae llawer iawn o bobl wedi elwa o ymdrechion ac arbrofion y Dr Kolff.



Adnod: "Oddi wrth y Goruchaf y daw ei ddawn i iacháu."
Ecclesiasticus 38:2



Gwedi: Diolch i ti, Arglwydd, am feddygon a nyrsys sy'n barod i helpu a chynorthwyo'r claf. Amen.



Trafod:

- Beth fydddech chi'n ei ddweud oedd cryfderau y Dr Kloff?
- Beth yw eich barn chi am barhau bywyd lle nad oes fawr o obaith?